**Annwyl Fyfyriwr Mynediad Uniongyrchol (Lefel 5)**

**Gwybodaeth Bwysig ar gyfer Wythnos Sefydlu 2018**

Llongyfarchiadau ar gael eich derbyn i Lefel 5 (blwyddyn dau) rhaglen Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff BSc (Anrh) yn Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae'r llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am eich cwrs a manylion ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Sefydlu ar gyfer myfyrwyr mynediad uniongyrchol.

**Mae'r wythnos sefydlu yn dechrau ddydd Llun 17 Medi 2018.** Cynhelir llawer o weithgareddau yn ystod yr wythnos a bydd y manylion llawn ar gael drwy'r dudalen we newydd i fyfyrwyr. Efallai yr hoffech fynychu Ffair y Glas yn benodol, ddydd Mercher 19 Medi yn y Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol ar gampws Cyncoed. Bydd hwn yn gyfle i chi gyfarfod ag Undeb y Myfyrwyr a dysgu mwy am y gweithgareddau chwaraeon a'r gweithgareddau cymdeithasol sydd ar gael yn ogystal â'r Gwasanaethau Proffesiynol a all eich helpu yn ystod eich cyfnod ym Met Caerdydd.

**Fel rhan o'r broses sefydlu, dylech gysylltu â'ch Tiwtor Blwyddyn, Dr Paul Smith (psmith@cardiffmet.ac.uk)** i **drefnu cyfarfod un-i-un ar gyfer dydd Llun 17 Awst 2018.** Bydd hwn yn gyfle gwerthfawr i chi drafod y rhaglen, modiwlau dewisol, a'r cynlluniau penodol ar gyfer yr wythnos sefydlu. **Cysylltwch â'ch Tiwtor Blwyddyn cyn dydd Llun 10 Medi 2018** i drefnu hyn. Dylech hefyd fod yn ymwybodol y bydd gennych **gyfarfod gyda'ch Tiwtor Blwyddyn a'ch cyd-fyfyrwyr hefyd ddydd Mawrth 18 Medi 2018 am 12:00-13:00 yn C0.20 (LT1), campws Cyncoed.** Bydd hefyd gennych gyfarfod gyda'ch tiwtor personol ddydd Gwener 21 Medi 2018, a darperir manylion am y cyfarfod hwn yn ystod eich cyfarfod gyda'ch Tiwtor Blwyddyn.

**O ran cofrestru,** ni ddylech hunangofrestru gan na fydd gennych ddigon o wybodaeth i ddewis eich modiwlau dewisol. Bydd eich Tiwtor Blwyddyn yn darparu canllawiau ar ddewis modiwlau yn ystod yr Wythnos Sefydlu. Os nad ydych eisoes wedi darparu gwybodaeth am eich cymwysterau mynediad, dylech ddod â **chopi o'ch cymwysterau**, ar ffurf tystysgrif neu drawsgrifiad.

Yn ystod yr wythnos sefydlu, cewch y wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen addysgu ac unrhyw faterion pwysig eraill sy'n gysylltiedig â'ch rhaglen neu flwyddyn astudio. Bydd y map llwybrau isod yn eich arwain drwy'r modiwlau sydd ar gael i'ch rhaglen a gellir trafod y rhain yn fanylach gyda'ch Tiwtor Blwyddyn. Er gwybodaeth i chi, gweler y canlynol isod:

a) Map Llwybrau isod i roi trosolwg o strwythur eich cwrs.
b) Dolen i ddyddiadau'r Tymhorau a'r wythnosau addysgu ar gyfer 2018-19
c) Dolen i archebu cit. Cliciwch ar y ddolen hon i fynd i Siop Ar-lein Met Caerdydd er mwyn archebu eich cit. Bydd angen yr enw defnyddiwr a chyfrinair canlynol i gael mynediad i'r safle hwn:

Enw defnyddiwr: Metstudent@totalteamwearuk.com
Cyfrinair: Met2018

Noder bod holl fyfyrwyr yr Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd yn cael pecyn cit safonol am ddim ac mae'n rhaid talu am git ychwanegol. Ceir rhagor o fanylion drwy glicio ar y ddolen a chaiff yr holl gitiau eu casglu yn ystod yr Wythnos Sefydlu.

Dylech hefyd nodi'r gofynion cofrestru ar y dudalen we newydd i fyfyrwyr a sicrhau eich bod yn dod â'r ddogfennaeth gywir gyda chi. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau am lety yng Nghaerdydd, cysylltwch â'r Gwasanaeth Llety ar 029 2041 6188/7013. Mae'r swyddfa llety yn cynnig gwasanaeth cynhwysfawr,

gan helpu myfyrwyr i ddod o hyd i lety a gall ddarparu manylion am landlordiaid lleol a myfyrwyr eraill sydd am rannu llety.

Edrychaf ymlaen at eich gweld ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â'r Ysgol yn ccprogadmin@cardiffmet.ac.uk neu drwy ffonio 02920 416185 / 6506 neu drwy edrych ar y dudalen we newydd i fyfyrwyr.

Yn Gywir,



**Dr Rob Meyers,**
**Cydlynydd Rhaglenni Israddedigion**
**Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd**

## BSc (Anrh) Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff 2018-19

**LEFEL 5 – MAP LLWYBRAU**

| Teitl y Modiwl | Modiwl Rhif | Gwerth Credyd | Lefel | Gorfodol / Dewisol | Tymor |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gorfodol:** | | | | | |
| Y Broses Ymchwil | SSP5000 | 20 | 5 | G/D | 1,2 a 3 |
| Dulliau Ymchwil | SSP5900 | 20 | 5 | G/D | 1,2 a 3 |
| Ffisioleg Chwaraeon ac Ymarfer Corff | SSP5011 | 20 | 5 | G/D | 1,2 a 3 |
| Ffisioleg Chwaraeon ac Ymarfer | SSP5911 | 20 | 5 | G/D | 1,2 a 3 |
| Biomecaneg Chwaraeon ac Ymarfer Corff | SSP5012 | 20 | 5 | G | 1,2 a 3 |
| Seicoleg mewn Chwaraeon ac Ymarfer Corff | SSP5013 | 20 | 5 | G | 1,2 a 3 |
| **Opsiynau**<br>Dewiswch 20 neu 40 o Gredydau o'r canlynol: | | | | | |
| Cryfder a Chyflyru | SSP5014 | 20 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Dadansoddi Perfformiad ym maes Chwaraeon | SSP5017 | 20 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Hyfforddi Chwaraeon ac Addysg Gorfforol | SSP5019 | 20 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Hyfforddi Chwaraeon ac Addysg Gorfforol | SSP5919 | 20 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Profiad Gwaith | SSP5021 | 20 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Atgyfeiriadau Ymarfer Corff | SSP5089 | 20 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| **Os ydych wedi dewis 20 o gredydau uchod, dewiswch 20 o gredydau o'r canlynol:** | | | | | |
| Egwyddorion a Thechnegau Cymhwysol (Athletau) | SSP5022 | 10 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Egwyddorion a Thechnegau Cymhwysol (Badminton) | SSP5023 | 10 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Egwyddorion a Thechnegau Cymhwysol (Pêl Fasged) | SSP5024 | 10 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Egwyddorion a Thechnegau Cymhwysol (Criced) | SSP5025 | 10 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Egwyddorion a Thechnegau Cymhwysol (Dawns) | SSP5026 | 10 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Egwyddorion a Thechnegau Cymhwysol (Pêl-droed) | SSP5027 | 10 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Egwyddorion a Thechnegau Cymhwysol (Gymnasteg) | SSP5028 | 10 | 5 | D | 1,2 a 3 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Egwyddorion a Thechnegau Cymhwysol (Hoci) | SSP5029 | 10 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Egwyddorion a Thechnegau Cymhwysol (HRE) | SSP5030 | 10 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Egwyddorion a Thechnegau Cymhwysol (Pêl-rwyd) | SSP5031 | 10 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Egwyddorion a Thechnegau Cymhwysol (Rygbi) | SSP5032 | 10 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Egwyddorion a Thechnegau Cymhwysol (Sboncen) | SSP5033 | 10 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Egwyddorion a Thechnegau Cymhwysol (Nofio) | SSP5034 | 10 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Egwyddorion a Thechnegau Cymhwysol (Tenis) | SSP5036 | 10 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Egwyddorion a Thechnegau Cymhwysol (Trampolîn) | SSP5037 | 10 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Egwyddorion a Thechnegau Cymhwysol (Pêl Foli) | SSP5038 | 10 | 5 | D | 1,2 a 3 |
| Dysgu sy'n seiliedig ar broblemau drwy Weithgareddau Awyr Agored Anturus | SSP5040 | 20 | 5 | D | 2 |

# BSc (Anrh) Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff 2018-19

## LEFEL 6 – MAP LLWYBRAU

| Teitl y Modiwl | Modiwl Rhif | Gwerth Credyd | Lefel | Gorfodol / Dewisol | Tymor |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gorfodol:** | | | | | |
| Prosiect Annibynnol | SSP6000 | 40 | 6 | G/D | 1,2 a 3 |
| Traethawd Estynedig | SSP6900 | 40 | 6 | G/D | 1, 2 a 3 |
| **Opsiynau**<br>Dewiswch 60 neu 80 o gredydau o'r canlynol: | | | | | |
| Biomecaneg Chwaraeon ac Ymarfer Corff | SSP6012 | 20 | 6 | D | 1,2 a 3 |
| Seicoleg Ymarfer Corff | SSP6013 | 20 | 6 | D | 1,2 a 3 |
| Seicoleg Chwaraeon | SSP6014 | 20 | 6 | D | 1,2 a 3 |
| Ffisioleg Ymarfer Corff ac Iechyd Uwch | SSP6015 | 20 | 6 | D | 1,2 a 3 |
| Ffisioleg Ymarfer ar gyfer Iechyd | SSP6915 | 20 | 6 | D | 1,2 a 3 |
| Ffisioleg Chwaraeon Uwch | SSP6016 | 20 | 6 | D | 1,2 a 3 |
| **Dewiswch 0 neu 20 o gredydau o'r canlynol:** | | | | | |
| Dysgu Seiliedig ar Broblemau ar gyfer Hyfforddi | SSP6010 | 20 | 6 | D | 1,2 a 3 |
| Dysgu Seiliedig ar Ddatrys mewn Hyfforddi | SSP6910 | 20 | 6 | D | 1,2 a 3 |
| Cryfder a Chyflyru Uwch | SSP6017 | 20 | 6 | D | 1,2 a 3 |
| Rheoli Chwaraeon Perfformiad Uchel | SSP6022 | 20 | 6 | D | 1,2 a 3 |
| Dadansoddi Perfformiad ym maes Chwaraeon | SSP6026 | 20 | 6 | D | 1,2 a 3 |
| Profiad Gwaith | SSP6021 | 20 | 6 | D | 1,2 a 3 |